**Alun Davies AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus**
**Cabinet Secretary for Local Government and Public Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref ARD/001864/18

John Griffiths AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

18 Mehefin 2018

Annwyl John

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 15 Mai lle rydych yn gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â nifer o argymhellion yn dilyn ymchwiliad y Pwyllgor i gau Cymunedau yn Gyntaf.

Gweler isod yr ymatebion i'r cwestiynau a'r diweddariadau y gofynnwyd amdanynt.

- **Nifer y prosiectau nad ydynt bellach yn parhau o ganlyniad i gau Cymunedau yn Gyntaf. Dylai hyn gynnwys manylion y dosbarthiad daearyddol a'r mathau o raglenni sydd wedi dod i ben.**

- **Pa brosiectau sydd wedi'u cynnal gan gefnogaeth y Gronfa Waddol, ac asesiad o gynaliadwyedd hir dymor y prosiectau hyn unwaith y daw'r Cyllid Gwaddol i ben.**

- **Pa brosiectau sy'n parhau mewn ryw ffurf gan sefydliadau eraill.**

Sefydlwyd Cymunedau yn Gyntaf yn 2001. Ym mis Ebrill 2012, cafodd ei adnewyddu fel rhaglen i fynd i'r afael â thlodi mewn cymunedau, gan adeiladu ar lwyddiannau'r rhaglen wreiddiol a gweithio mewn 52 o ardaloedd clwstwr ledled Cymru.

Ar ôl ystyried yn ofalus yn ystod 2016-17, gwelwyd, er bod y rhaglen wedi gwneud llawer ar gyfer unigolion, roedd lefelau tlodi cyffredinol yn parhau'n ystyfnig o uchel, ac ni ellid disgwyl i unrhyw raglen unigol wella hyn.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Alun.Davies@llyw.cymru
Correspondence.Alun.Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae dod â’r rhaglen i ben dros gyfnod o ddeuddeg mis yn hytrach na dewis ei chau'n sydyn, yn ogystal â'r mesurau lliniaru a roddwyd ar waith, fel y gronfa waddol a'r cyllid ar gyfer Cymunedau am Waith a Mwy, wedi rhoi cyfleoedd i adleoli staff a pharhau â rhai o elfennau mwyaf effeithiol Cymunedau yn Gyntaf.

Fel llywodraeth, rydym wedi pwysleisio'r angen i sicrhau ein bod yn darparu ar gyfer y rheini sydd â'r anghenion mwyaf ac yn gweithredu i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol tlodi. Yn ychwanegol at y mesurau lliniaru a sefydlwyd, anogwyd sefydliadau i gydweithio â'u sefydliadau partner i ymateb i anghenion lleol.

Cyflwynwyd prosiectau Cymunedau yn Gyntaf ar draws 52 o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf mewn 19 awdurdod lleol. Yn ystod y flwyddyn bontio hyd at 31ain Mawrth 2018, roedd cyfanswm o 323 o brosiectau yn gweithredu mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf ledled Cymru. Mae dadansoddiad daearyddol o'r rhain fesul awdurdod lleol i'w weld yn Atodiad 1. Yn ystod y flwyddyn bontio, roedd mwyafrif y prosiectau yn canolbwyntio ar helpu pobl tuag at waith fel clybiau swyddi, gwella sgiliau, mynd i'r afael â materion iechyd meddwl lefel isel a gwella hyder pobl. Roedd prosiectau eraill yn cynnwys gwella sgiliau TG a chynhwysiant digidol, cynhwysiant ariannol a gwella iechyd a lles corfforol.

Mae prosiectau o dan y thema cyflogaeth a chyflogadwyedd, sydd wedi’u cynnwys uchod, yn parhau i ddod o dan gronfa waddol Llywodraeth Cymru. Ers hynny, mae'r 19 awdurdod lleol sy'n rhan o Gymunedau yn Gyntaf wedi cyflwyno cynlluniau Cronfa Waddol sy’n amlinellu 87 o brosiectau gwahanol gan ganolbwyntio’n barhaus ar ymgysylltu â'r gymuned a gweithio mewn partneriaeth. Mae 64 o'r 87 prosiect, bron i dri chwarter, yn barhad o waith blaenorol Cymunedau yn Gyntaf. Mae cynlluniau'r Gronfa Waddol yn adlewyrchu blaenoriaethau lleol, asesiadau lles a rôl y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, y gymuned leol a phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol eraill.

Mewn rhai awdurdodau lleol, mae llawer o'r gefnogaeth a ddarparwyd gan Gymunedau yn Gyntaf yn y gorffennol wedi'i adolygu ac adlewyrchwyd ar hynny drwy wahanol ffyrdd o weithio. Mewn un awdurdod lleol – Casnewydd - daethpwyd â phrosiectau Cymunedau yn Gyntaf i ben yn raddol tra datblygwyd model newydd 'Prif Ganolfan a Lloerennau’r Gymdogaeth’. Bydd hyn yn golygu cydleoli gwasanaethau a thimau o staff yn cydweithio gan alluogi aliniad cryf â rhaglenni eraill Llywodraeth Cymru. Bydd y model symlach hwn sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid yn nodi'r ffordd fwyaf effeithiol o helpu unigolion i gael gwaith.

Mae Cyngor Dinas Casnewydd hefyd yn datblygu'r dull hwn, sy’n seiliedig ar le, ochr yn ochr â rhaglenni ymyrraeth gynnar ac atal Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg, Cefnogi Pobl a Chymunedau am Waith. Bydd prosiectau'r Gronfa Waddol yn gweithio mewn partneriaeth â darpariaethau eraill a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop, Gyrfa Cymru a'r Ganolfan Byd Gwaith, i ddarparu pecyn cymorth wedi'i deilwra i'r unigolion hynny sy'n wynebu nifer o rwystrau i gyflogaeth fel tai, arian, tlodi bwyd, mynediad i TG ac ati.

Ymhlith y prosiectau Cymunedau yn Gyntaf eraill fydd yn parhau i gael eu rhedeg yn uniongyrchol gan awdurdodau lleol fydd y prosiect Ymgysylltu Creadigol yn Abertawe, fydd yn derbyn cefnogaeth gan dîm Dysgu Oedolion y Cyngor. Yn Nhorfaen, bydd y Cyngor Bwrdeistref Sirol yn ariannu'r prosiect cynhwysiant ariannol. Hefyd yn Nhorfaen, bydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn defnyddio cyllid Rhwydwaith Gofal y Gymdogaeth i sicrhau bod y prosiect presgripsiynau cymdeithasol yn parhau.

O ran y prosiectau sy’n parhau drwy sefydliadau eraill, cyfarfu swyddogion â byrddau iechyd a chonsortia addysg er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r newidiadau sy'n digwydd i Gymunedau yn Gyntaf. Yn Sir Benfro, er enghraifft, mae'r Corff Cyflawni Arweiniol yn ymgysylltu'n agos â'r Bwrdd Iechyd Lleol i ymgorffori dull Cymunedau yn Gyntaf o ran bwyta'n iach i fewn i ddull y Bwrdd Iechyd Lleol o ddarparu gwasanaethau cyffredinol. Yn ogystal, roedd meddygfa leol yn hwyluso gwaith grŵp gweithredu sy'n cefnogi pobl ag anghenion ychwanegol i fyw yn y gymuned. Mae'r enghreifftiau hyn yn dangos sut mae prosiectau a ddarparwyd gan Gymunedau yn Gyntaf yn y gorffennol yn parhau i ddatblygu drwy weithio mewn partneriaeth.

Mae prosiect canlyniadau ar y cyd Cyngor Ar Bopeth, a oedd yn gweithredu mewn 42 o glystyrau Cymunedau yn Gyntaf, hefyd yn parhau ochr yn ochr â'r prosiect ‘Cyngor Da Byw’n Well’ a Grant Gwasanaethau Cyngor Rheng Flaen, sy'n cael eu goruchwylio gan y Tîm Cynhwysiant Ariannol o fewn is-adran Gymunedau Llywodraeth Cymru. Er mwyn sicrhau bod yr holl wasanaethau cynghori a gyllidir yn y dyfodol o fewn ardal leol yn cael eu hintegreiddio'n well, mae gwaith yn mynd rhagddo i uno'r dair ffrwd bresennol o ariannu gwasanaethau cynghori i un gronfa.

Mae GemauStryd, un arall o'r prosiectau canlyniadau ar y cyd hefyd wedi parhau i gael ei ariannu fel rhan o drefniadau gwaddol ehangach yn dilyn cau Cymunedau yn Gyntaf. Maent yn parhau i weithio gydag ardaloedd clwstwr Cymunedau yn Gyntaf ac maent wedi meithrin perthynas â nifer o awdurdodau lleol i barhau â'r gwaith yn y maes hwn.

**Mae gweithredu argymhelliad 7, a pha brosiectau sy'n parhau wedi cael eu hasesu fel ffordd o gefnogi 'grymuso'**

Drwy gyhoeddi *Ffyniant i bawb - y strategaeth genedlaethol (2017)* darparwyd eglurhad pellach o bwysigrwydd grymuso pobl a chymunedau, a rôl y Llywodraeth wrth gefnogi a grymuso'r rheini sydd am wneud gwahaniaeth yn eu cymunedau. Mae ein hymrwymiadau o dan y strategaeth, ac yn arbennig y thema *Unedig a Chysylltiedig*, yn nodi nifer o'r camau y bydd y llywodraeth yn eu cymryd i gyflawni ein nod o adeiladu cenedl lle mae pobl yn ymfalchïo yn eu cymunedau. Mae ein strategaeth genedlaethol yn ffordd newydd o weithio, gan gydnabod bod "sut" rydym yn ei ddarparu yr un mor bwysig â "beth" rydym yn ei ddarparu, ac yn cydnabod yr angen i wneud pethau'n wahanol ac i gynnwys pobl wrth lunio'r gwasanaethau maent yn eu defnyddio bob dydd. Mae'r strategaeth yn egluro sut bydd angen i’r broses o rymuso cymunedau fod yn ymdrech ar draws y llywodraeth ac ar draws sectorau, gyda nifer o gamau allweddol i’w cymryd ar draws portffolios. Gyda'i gilydd, bydd y camau hyn yn meithrin amgylchedd ar gyfer cysylltiadau dyfnach rhwng pobl, o fewn teuluoedd, cymdogaethau, gweithleoedd a chymunedau ehangach, sy'n rhoi ymdeimlad o berthyn ac o les i ni.

O safbwynt awdurdodau lleol, fe wnes i fy ymrwymiad i’n glir i drafod a dadlau ynglŷn â sut rydym yn cryfhau a grymuso cymunedau a chynghorau ledled Cymru yn y papur Gwyrdd *Cryfhau Llywodraeth Leol: Cyflawni dros Ein Pobl* (Mawrth 2018). Rhan allweddol o'r dull hwn yw darparu Awdurdodau Lleol cryfach, mwy pwerus gyda'r uchelgais, y sgiliau a’r hyblygrwydd i gefnogi cymunedau i gael eu grymuso a'u cynnwys; yn ffyniannus a llwyddiannus; ac, yn gynrychioliadol ac yn ddylanwadol.

O ran parhau â’r prosiectau sy'n cefnogi grymuso, roedd y gronfa waddol ar gael i barhau ag agweddau gorau’r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Mae awdurdodau lleol wedi defnyddio'r gronfa waddol i ddatblygu a chyflwyno amrywiaeth o fathau o gymorth i gymunedau, ac nid o reidrwydd i ddarparu prosiectau unigol yn unig. O fewn ceisiadau'r gronfa waddol, gofynnwyd i awdurdodau lleol ddangos sut mae'r agweddau mwyaf llwyddiannus wrth symud ymlaen yn cefnogi'r agenda o rymuso o fewn eu ceisiadau. Er enghraifft, roedd nifer o geisiadau yn cynnwys grymuso pobl ifanc. Mae un awdurdod lleol yn gweithio gyda phobl ifanc i ddatblygu ac adeiladu gwytnwch, gan ganolbwyntio ar sgiliau sy'n hyrwyddo lles positif ac yn datblygu hyder a hunan-barch. Fel rhan o'r prosiect, bydd cyfle i blant a phobl ifanc gymryd rhan mewn Fforymau Ieuenctid neu Fforymau Iau, lle gallant gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau ar lefel leol a chenedlaethol a chael mynediad at addysg sy'n gysylltiedig â Dinasyddiaeth Weithgar a Hawliau Plant.

**Diweddariad ar y gwaith ymchwil y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud ar ddichonoldeb astudiaeth hydredol (argymhelliad 10)**

Byddai datblygu arolwg newydd neu roi 'hwb' (ariannu cyfweliadau ychwanegol) i arolwg presennol, y mae’r ddau opsiwn wedi’u hystyried gan Lywodraeth Cymru yn y gorffennol, yn afresymol o ran cost, ond yn fwy perthnasol, ni fyddai'n rhoi gwybodaeth ddigon manwl ar gyfer dadansoddi’r mathau o lefelau daearyddol bach sy’n ofynnol neu ar gyfer grwpiau poblogaeth cymharol brin fel y rheini â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Yr argymhelliad sydd o flaenoriaeth fwyaf i’r Ganolfan Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol o’r Adolygiad Strategol Astudiaethau Hydredol 2017 oedd bod angen i astudiaethau hydredol, er mwyn delio â phoblogaethau amrywiol a newidiol, "ddatblygu a chynnal asgwrn cefn ar gyfer data gweinyddol gyda'r uchafswm o ran y boblogaeth y gellir ei ddefnyddio fel sail ar gyfer cyswllt data”. Wrth ymateb, dywedodd y Ganolfan Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol eu bod yn datblygu strategaeth i adeiladu" Labordy Poblogaeth y DU "i sicrhau bod cryfderau data arolwg hydredol, data gweinyddol, data mawr a mathau newydd o ddata yn cael eu cydnabod a'u cefnogi mewn ffordd sy'n hwyluso'r cyfuniad o wahanol fathau o ddata at ddibenion ymchwil gwahanol.

Mae astudiaeth ddichonoldeb eisoes wedi ei gymeradwyo i ganolbwyntio ar ddatblygu ein dealltwriaeth o amddifadedd ar lefel unigolion neu gartrefi, gan ddefnyddio data arolygu a data gweinyddol cysylltiedig. Bydd hyn yn ychwanegu at ein dealltwriaeth o ardaloedd gwahanol - a ddarperir gan Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD) - gyda dealltwriaeth o amddifadedd unigolion a chartrefi. Mae hefyd yn ceisio dod â data o nifer o ffynonellau allweddol at ei gilydd, gan gynnwys yr Adran Gwaith a Phensiynau, DVLA, Asiantaeth y Swyddfa Brisio, SAIL.

Bydd yr astudiaeth ddichonoldeb yn archwilio materion ac ystyriaethau sy'n hanfodol i ddatblygu astudiaeth hydredol o amddifadedd unigol a byddai'n fan cychwyn ar gyfer astudiaeth hydredol bosibl ar dlodi yng Nghymru. Mae'n ceisio dod â’r ffynonellau data gweinyddol perthnasol yn ogystal ag Arolwg Cenedlaethol Cymru at ei gilydd a gellid ychwanegu data rhaglen benodol ato (Dechrau'n Deg, Cefnogi Pobl, cynlluniau tlodi tanwydd etc) fel y gallai pobl gael eu ‘nodi’ pan fyddant yn defnyddio rhaglen Llywodraeth Cymru. O'r 'asgwrn cefn' hwn, gallem adeiladu dealltwriaeth o dlodi dros oes gyfan ac edrych yn benodol a oes tystiolaeth bod ymyrraeth Llywodraeth Cymru yn cael effaith. Bydd angen ystyried canfyddiadau'r astudiaeth ddichonoldeb yn llawn cyn y gellir ymrwymo i astudiaeth lawnach.

Ar hyn o bryd, mae'r astudiaeth wedi sicrhau mynediad at ddata Cyfrifiad 2011 ac mae’n aros am ddata o’r Adran Gwaith a Phensiynau. Bydd yr astudiaeth yn dechrau ar ôl i'r data ar gyfer y Banc Data SAIL gyrraedd.

**Pa addasiadau sydd wedi'u gwneud i raglenni perthnasol eraill Llywodraeth Cymru, fel Cymunedau am Waith, Esgyn, Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf (argymhelliad 11)**

Wrth i Gymunedau yn Gyntaf ddod i ben ac ar ôl cwblhau'r rhaglen Esgyn yn llwyddiannus, lansiwyd Cymunedau am Waith a Mwy fel rhaglen £12 miliwn y flwyddyn a gyflwynwyd o 1 Ebrill 2018. Mae hyn yn cefnogi’r broses barhaus o ddarparu Cymunedau am Waith a bydd yn ymgorffori'r hyn a ddysgwyd o’r rhaglen Esgyn. Bu'n bosib trosglwyddo arbenigedd staff Cymunedau yn Gyntaf mewn nifer o'r awdurdodau lleol sydd bellach yn darparu Cymunedau Am Waith a Mwy. Mae hyn wedi galluogi perthnasoedd ac arbenigedd i aros o fewn cymunedau.

Mae Cymunedau am Waith a Mwy yn galluogi cymorth cyflogadwyedd i gael ei ddarparu i bobl nad ydynt yn gymwys ar gyfer Cymunedau am Waith, Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE) neu Raglenni rhanbarthol eraill Cronfa Gymdeithasol Ewrop, gan gynnwys y rheini sy'n byw y tu allan i godau post hen ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Yn ogystal, mae cyllid Cymunedau Am Waith a Mwy bellach wedi'i glustnodi i Gynghorau Sir Powys, Ceredigion a Sir Fynwy sydd bellach yn golygu bod cefnogaeth ar gael i bob ardal awdurdod lleol. Fel y nodir uchod, mae nifer o brosiectau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth wedi parhau fel rhan o'r cynigion gwaddol i ategu'r gwaith o gyflwyno Cymunedau am Waith a Chymunedau am Waith a Mwy.


Cynhaliwyd y broses o roi ffocws newydd i Deuluoedd yn Gyntaf, y manylwyd arno yn yr ymateb gwreiddiol i'r Pwyllgor, ar ôl adolygiad fu’n ystyried tystiolaeth a gasglwyd yn ystod y gwerthusiad annibynnol tair blynedd o’r cynllun Teuluoedd yn Gyntaf, yn ogystal â thystiolaeth a gasglwyd gan y Cydlynwyr Teuluoedd yn Gyntaf sy'n gyfrifol am gomisiynu a darparu gwasanaethau. Yn ystod y broses hon, daeth yn amlwg bod y rhaglen yn cael ei gwerthfawrogi’n fawr ac yn perfformio'n dda mewn nifer o feysydd allweddol, yn bennaf drwy’r Tîm o Amgylch y Teulu. Serch hynny, lleisiwyd pryderon ynglŷn â’r ystod eang o wasanaethau a gomisiynwyd a oedd wedi dod yn fwyfwy eang, gan arwain at bryderon ynghylch cynaliadwyedd, pe bai’n parhau. O ganlyniad, mae'r rhaglen yn parhau i ganolbwyntio ar ddarparu cymorth pwrpasol, aml-asiantaeth i deuluoedd cyfan, gan chwarae rôl allweddol wrth helpu rhieni i greu amgylchedd sefydlog lle gall plant a phobl ifanc ffynnu. Mae’n bwysig ei bod yn cadw elfennau allweddol y Fframwaith Asesu’r Teulu ar y Cyd (JAFF) llwyddiannus, Tîm o Amgylch y Teulu (TAF) a ffocws anabledd.

Cymerwyd y penderfyniad i ail-ganolbwyntio’r prosiectau strategol i sicrhau y gall y rhaglen ddatblygu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion rhieni, plant a phobl ifanc yn well a chysylltu gwaith y rhaglen yn glir gydag atal Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod.

Mae awdurdodau lleol yn dal i allu comisiynu ystod o wasanaethau a chadw'r hyblygrwydd i gynllunio modelau comisiynu sy'n addas ar gyfer trefniadau lleol. Dylai'r prosiectau a gomisiynir ganolbwyntio bellach ar roi amrywiaeth o sgiliau i deuluoedd i feithrin eu hyder a'u gwytnwch a'u cefnogi i gyflawni canlyniadau positif hir dymor. Mae hefyd yn bwysig nad yw gwasanaethau i rieni a phobl ifanc yn cael eu darparu mewn ffordd ynysig, gan roi mwy o bwyslais ar awdurdodau lleol drwy sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cysylltu â’i gilydd ac yn gydlynol er mwyn galluogi teuluoedd i dderbyn ehangder y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt.

Adolygwyd canllawiau rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf mewn cydweithrediad â phartneriaid darparu allweddol ac fe'i cyhoeddwyd ym mis Ebrill 2017. Dechreuodd pob awdurdod lleol weithredu o dan y trefniadau newydd o 1 Ebrill 2018.

Cofion gorau



**Alun Davies AC**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus

**CYMUNEDAU YN GYNTAF BLWYDDYN PONTIO 2017-18**

NIFER O BROSIECTAU YN ÔL ARDAL AWDURDOD LLEOL

| | |
|---|---|
| Ynys Mon | 5 |
| Blaenau Gwent | 28 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 17 |
| Caerffili | 17 |
| Caerdydd | 47 |
| Gar | 9 |
| Conwy | 7 |
| Ddinbych | 6 |
| Fflint | 6 |
| Gwynedd | 10 |
| Merthyr Tudful | 72 |
| Castell - nedd Port Talbot | 9 |
| Casnewydd | 14 |
| Penfro | 11 |
| Rhondda Cynon Taf | 24 |
| Abertawe | 9 |
| Bro Morgannwg | 14 |
| Torfaen | 5 |
| Wrecsam | 13 |
| | **323** |

Roedd y prosiectau uchod yn derbyn arian yn ystod y flwyddyn ariannol 2017-18 am Gymunedau yn Gyntaf. Daeth arian Cymunedau yn Gyntaf ar gyfer y prosiectau 323 i ben 30 Mawrth 2018 fodd bynnag nid pob prosiect wedi dod i ben.

**COMMUNITIES FIRST TRANSITION YEAR 2017-18**

NUMBER OF PROJECTS BY LOCAL AUTHORITY AREA

| | |
|---|---|
| Anglesey | 5 |
| Blaenau Gwent | 28 |
| Bridgend | 17 |
| Caerphilly | 17 |
| Cardiff | 47 |
| Carmarthenshire | 9 |
| Conwy | 7 |
| Denbighshire | 6 |
| Flintshire | 6 |
| Gwynedd | 10 |
| Merthyr Tydfil | 72 |
| Neath Port Talbot | 9 |
| Newport | 14 |
| Pembrokeshire | 11 |
| Rhondda Cynon Taf | 24 |
| Swansea | 9 |
| Vale of Glamorgan | 14 |
| Torfaen | 5 |
| Wrexham | 13 |
| | **323** |

The above projects were in receipt of Communities First funding during the 2017-18 financial year. Communities First funding for the 323 projects ended 30 March 2018 however not all projects ended.